# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Menter a Busnes

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 9 Mawrth 2016

Amser: 09.15 - 11.53

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3393

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | William Graham AC (Cadeirydd)<br>Mick Antoniw AC<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Jeff Cuthbert AC<br>Keith Davies AC<br>Dafydd Elis-Thomas AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Joyce Watson AC |
| Tystion: | Grahame Guilford, Llysgennad Cyllid yr UE<br>Hywel Ceri Jones, Llysgennad Cyllid yr UE<br>Ross Murray, Country Landowners Association |
| Staff y Pwyllgor: | Gareth Price (Clerc)<br>Martha Da Gama Howells (Ail Glerc)<br>Rachel Jones (Dirprwy Glerc)<br>Ben Stokes (Ymchwilydd) |

| | Megan Jones (Ymchwilydd) |
|---|---|

**Trawsgrifiad**

View the trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 929KB) Gweld fel HTML (192KB)

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Eluned Parrott AC a Gwenda Thomas AC. Dirprwyodd William Powell AC ar ran Eluned Parrott AC ar gyfer eitemau un a dau.

1.2 Datganodd Dafydd Elis-Thomas AC a William Graham AC eu bod ill dau yn aelodau o'r Gymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad.

## 2 Trafod materion sy'n effeithio ar yr economi wledig

2.1 Atebodd Ross Murray gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor.

2.2 Cynigiodd Ross Murray ddarparu'r hyn a ganlyn:

- unrhyw sylwadau y mae'r Gymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad wedi eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru ynghylch yr agenda trechu tlodi.
- copi o'r dystiolaeth a ddarperir gan y Gymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad i Bwyllgor Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig San Steffan ar gyfer sesiwn dystiolaeth Ross Murray fis Ebrill, mewn perthynas â sut y mae tir yn cael ei ddefnyddio yn cyfrannu at greu neu rwystro llifogydd, gan gynnwys manylion am Brosiect Pontbren.

## 3 Craffu ar waith Llysgenhadon Cyllid yr UE

3.1 Atebodd Hywel Ceri Jones a Grahame Guilford gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor.

## 4 Papurau i'w nodi

### 4.1 Helpu Pobl Ifanc i gael Gwaith

4.1.1 Nodwyd y papur gan y Pwyllgor.

### 4.2 Datganoli Ardrethi Busnes i Gymru

4.2.1 Nodwyd y papur gan y Pwyllgor.

### 4.3 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer y Bil Menter

4.3.1 Nodwyd y papur gan y Pwyllgor.

### 4.4 Pwysau sy'n wynebu'r diwydiant dur yng Nghymru

4.4.1 Nodwyd y papur gan y Pwyllgor.

### 4.5 Cyllido Addysg Uwch

4.5.1 Nodwyd y papur gan y Pwyllgor.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

5.1 Cytunodd y Pwyllgor i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

## 6 Trafodaeth am yr adroddiad drafft ar y Blaenoriaethau ar gyfer Dyfodol Seilwaith y Rheilffyrdd yng Nghymru

6.1 Cytunodd y Pwyllgor yr adroddiad drafft ar y Blaenoriaethau ar gyfer Dyfodol Seilwaith y Rheilffyrdd yng Nghymru.